

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI



STRATEGAETH TLODI PLANT EBRILL 2012

CYNNWYS

1. Cyflwyniad
2. Pwrpasau Parc Cenedlaethol
3. Proffil Parc Cenedlaethol Eryri
4. Tystiolaeth o angen
5. Y Weledigaeth ar gyfer Eryri
6. Ymrwymiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i fynd i'r afael a thlodi plant.

1 Cyflwyniad

- 1.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan ei bod am geisio dileu tlodi plant erbyn y flwyddyn 2020. Ers i'r Cynulliad gael ei sefydlu, mae wedi pwysleisio bod lleihau tlodi plant yn elfen sylfaenol o'i hagenda cyfiawnder cymdeithasol yn ogystal ag yn rhan o'i hegwyddorion allweddol ar gyfer gweithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- 1.2 I gynorthwyo yn y sialens cyflwynwyd Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 sy'n gosod dyletswydd newydd ar bob corff cyhoeddus yng Nghymru i gyhoeddi Strategaeth Tlodi Plant, gyda'r bwriad i:
- (i) Lleihau nifer y teuluoedd sy'n byw ar aelwydydd heb waith.
 - (ii) Gwella sgiliau rhieni/gofalwyr a phobl ifanc sy'n byw ar aelwydydd incwm isel, er mwyn iddyn nhw sicrhau swyddi sy'n talu'n dda.
 - (iii) Lleihau anghydraddoldebau sy'n bodoli mewn canlyniadau iechyd, addysg ac economaidd plant a theuluoedd drwy wella canlyniadau'r tlotaf.
- 1.3 Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn croesawu'r cyfle i gael ei gynnwys yn y ddyletswydd hon ac yn falch fod llywodraeth Cymru yn gweld fod gan yr Awdurdod hefyd ran i'w chwarae yn y dyhead i ddileu tlodi plant a theuluoedd.
- 1.4 Bydd y Strategaeth hon yn datblygu ymhellach nifer o'r nodau ac amcanion a geir yng Nghynllun Rheolaeth a Chynllun Datblygu Lleol y Parc Cenedlaethol. Mae'r Awdurdod yn ymwybodol nad yw tlodi plant yn bodoli mewn gwagle, bydd y Strategaeth yn eistedd ochr yn ochr â Strategaeth Addysg, Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr Awdurdod ar Strategaeth Cynhwysedd Cymdeithasol y mae'r tri Pharc Cenedlaethol Cymreig wedi gweithio ar y cyd i'w gynhyrchu ac sydd bellach yn cynnwys y nod i gyfrannu at ddileu tlodi plant.

- 1.5 Rydym hefyd wedi ymgynghori gyda Chyngor Gwynedd a Chyngor Conwy ac wedi elwa o'r ymgynghori wnaed gan y ddau gyngor gyda phlant a phobl ifanc yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y bydd yn fwy effeithiol yn lliniaru effaith tlodi drwy weithio mewn partneriaeth.

2. Pwrpasau Parc Cenedlaethol Eryri


- 2.1 Caiff rheolaeth Parciau Cenedlaethol eu harwain gan eu pwrpasau statudol. Yn Adran 61 o Ddeddf Amgylchedd 1995 ailddiffiniwyd pwrpasau Parc Cenedlaethol:

- I warchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol ac i
- Hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer deall a mwynhau'r rhinweddau arbennig (gan y cyhoedd)

Wrth gyflawni'r pwrpasau hyn dylai Awdurdodau Parciau Cenedlaethol hefyd;

- Geisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol y cymunedau lleol

3. Proffil o'r Parc Cenedlaethol



3.1 Mae Parc Cenedlaethol Eryri'n ymestyn dros ardal o 2175 cilometr sgwâr o'r mynyddoedd i'r môr. Mae hanes a diwylliant yn rhan annatod o Eryri, mae 65% o'i breswylwyr yn siarad Cymraeg . Mae dros 90 copa dros 600 metr a 15 dros 900 metr. Hefyd mae dros 100 yn braf o lynnoedd mawr. Oherwydd y tirweddau a'r cynefinoedd unigryw mae mwy o Warchodfeydd Natur Genedlaethol yn Eryri nag yn unrhyw Barc Cenedlaethol arall ym Mhrydain. Dangosodd astudiaethau diweddar fod Parciau Cenedlaethol Cymru gyda'i gilydd yn cynnal tua 12,000 o swyddi ac yn cynhyrchu £177

miliwn ar gyfer eu heconomïau rhanbarthol. Mae Parc Cenedlaethol Eryri yn cynhyrchu tua thraean o'r cynnyrch economaidd hwn, oddeutu £60 miliwn y flwyddyn. Mae cyflogaeth sy'n uniongyrchol gysylltiedig ag amgylchedd hynod y Parc Cenedlaethol yn cynrychioli tua 4,000 o swyddi.

- 3.2 Mae 80% o'r Parc wedi ei leoli o fewn Cyngor Sir Gwynedd a'r 20% sy'n weddill o fewn ffiniau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.
- 3.3 Dangosodd Cyfrifiad 2001 boblogaeth o 25,482, gyda chynnydd bach i 25,745 yn Rhagamcanion Poblogaeth canol-2006 i Barciau Cenedlaethol. Mae'r newidiadau cymharol fach hyn yn y cyfanswm poblogaeth yn cuddio newid strwythurol llawer mwy sylweddol mewn poblogaeth sef allfudiad pobl ifanc o'r ardal i chwilio am gyfleoedd addysg uwch a chyflogaeth. Mae poblogaeth Eryri yn ddaearyddol wasgaredig; dim ond dwy dref sydd gyda mwy na 1,500 mewn poblogaeth - Dolgellau a'r Bala. Er nad yn rhan o'r Parc Cenedlaethol, mae Blaenau Ffestiniog wedi ei lleoli yn ei ganol a hon yw'r dref fwyaf o ran poblogaeth (4,800). Mae lleoedd eraill megis Harlech, Aberdyfi, a Thrawsfynydd gyda rhwng 650 a 1250 o breswylwyr.
- 3.4 Mae gan Eryri economi cyflog cymharol isel, gyda thwristiaeth, amaethyddiaeth ar sector gyhoeddus yn brif sectorau cyflogaeth. Mae'r sefyllfa bresennol o gygni economaidd ynghyd â thoriadau mewn gwariant cyhoeddus yn debygol o gael effaith arwyddocaol yma. Mae prisiau tai uchel wedi'i gyfuno gydag incymau teuluol isel yn golygu fod mynediad at lety yn anodd i lawer o bobl.
- 3.5 Yn y blynyddoedd diweddar bu newid sylweddol yn strwythur y boblogaeth, a allai fod â goblygiadau sylweddol i les economaidd a chymunedol yn y dyfodol. Ers cyfrifiad 1991 mae gostyngiad sylweddol wedi bod yng ngrŵp oed 20-29 o 12% yn 1991 i 8.9% yn 2001, yn amlygu allfudiad pobl ifanc o'r ardal i gael addysg uwch, cyfleoedd cyflogaeth ac oherwydd diffyg tai fforddiadwy. Gall prisiau tai uchel, y newid mewn strwythur cymdeithasol poblogaeth Eryri fygwth lles cymunedau a hyfywedd ysgolion lleol, busnesau, gwasanaethau a chyfleusterau lleol. Er bod prisiau tai yn disgyn ar hyn o bryd, mae'r bwch

rhwng prisiau tai a fforddiadwyedd yn Eryri yn debygol o barhau'n un sylweddol. Ni all teuluoedd newydd fforddio byw yn yr ardal leol.

- 3.6 Mae'r Awdurdod yn cydnabod nad yw ei boblogaeth breswyl yn darparu'r darlun cyflawn a bod dynodiad Eryri fel Parc Cenedlaethol yn golygu bod pwrpasau a dyletswydd yr Awdurdod yn ymestyn at bobl ar ymylon Eryri ac ymhell y tu hwnt i'w ffiniau.

4. Tystiolaeth o angen

- 4.1 Tlodi yw'r bygythiad mwyaf i les plant a theuluoedd. Gall cael magwraeth mewn tlodi effeithio ar bob agwedd o ddatblygiad y plentyn, yn gymdeithasol, addysgiadol a phersonol.
- 4.2 Mae sawl diffiniad o dlodi ac amddifadedd. Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2011 (MALLC) yn nodi bod amddifadedd yn gysyniad ehangach na tlodi. "Mae tlodi fel arfer yn golygu bod heb ddigon o arian tra bo amddifadedd yn cynnwys diffyg cyfleoedd ac adnoddau, y byddem yn disgwyl cael mynediad atynt yn ein cymdeithas - er enghraifft iechyd da, diogelwch rhag trosedd, amgylchedd lan a diogel . Mae amddifadedd lluosog felly yn cyfeirio at y gwahanol fathau o amddifadedd allai ddigwydd. Mae wyth math o amddifadedd yn cael eu cynnwys yn y Mynegai sef: cyflogaeth; incwm; addysg; iechyd; diogelwch cymunedol; mynediad daearyddol at wasanaethau; tai ac amgylchedd ffisegol. Mae dros hanner (64.2) o aelwydydd Gwynedd gydag incwm aelwyd sy'n is na £30,000 - sy'n is na chyfartaledd incwm teulu yng Nghymru. Yn nhermau aelwydydd incwm isel iawn mae 11% o aelwydydd Gwynedd gydag incwm aelwyd sy'n llai na £10,000 y flwyddyn. Ar ffin y Parc ceir sawl ardal sydd ar hyn o bryd wedi eu cynnwys fel ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf sef; Abermo; Bowydd a Rhiw, Blaenau Ffestiniog; Talysarn a Nantlle; Pablig, Caernarfon Marchog, Bangor; De Pwllheli; Tudno a Mostyn Llandudno a Glyn a Rhiw Bae Colwyn. Yn ôl y wybodaeth a geir yn 'MALLC' 2008 mae'r ardaloedd a ganlyn yn cael eu cynnwys o fewn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru; yng Nghonwy - Glyn 2; Tudno 2; Abergele Pensarn; Rhiw 3; yng Ngwynedd Pablig; Marchog 1 a Marchog 2.

- 4.3 Mae hi'n bwysig cofio hefyd nad yw pob person difreintiedig yn byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Yn ôl MALLC, mae tua 4 o bob 5 person mewn aelwydydd sy'n derbyn budd daliadau incwm yn byw y tu allan i'r ardaloedd hyn.
- 4.4 Mae hyn yn arbennig o wir yng nghefn gwlad - lle ceir aelwydydd tlawd yn aml yn byw ochr yn ochr ag aelwydydd cefnog. Mae sawl astudiaeth wedi eu cynnal ar dlodi ac amddifadedd yng nghefn gwlad. Yn eu cyhoeddiad 'Teuluoedd Nid Ardaloedd sy'n Dioddef Anfantais'(2008) dywed Plant yng Nghymru bod teuluoedd mewn ardaloedd gwledig yn fwy tebygol o ddiodef allgau cymdeithasol. Mae mwy o rwystrau i'w goresgyn yng nghefn gwlad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn eu hawliau.
- a. Un o'r prif resymau bod plant, pobl ifanc a theuluoedd yn wynebu allgau cymdeithasol a diffyg cyfleoedd mewn ardaloedd gwledig yw diffyg cludiant cyhoeddus.
 - b. Dywed yr Elusen Achub y Plant y byddai teuluoedd yn cynilo ar fwyd er mwyn rhedeg car gan yr ystyrir fod cael car mor hanfodol â'r bil bwyd. Mae arolygon yn rhoi'r argraff fod perchnogaeth ceir yn gysylltiedig gyda diffyg amddifadedd. Mae hyn mewn gwirionedd yn cuddio'r ffaith y bydd llawer o bobl yn gwneud aberth mawr mewn rhannau eraill o'u bywyd i fedru fforddio rhedeg car. Nid yw perchnogaeth car o reidrwydd yn trosi'n fynediad i gar gan y bydd yr enillydd cyflog yn aml yn mynd â'r car gan adael y rhiant arall adref gyda phlant ifanc heb gludiant i gyrraedd gwasanaethau. Mae tanwydd mewn ardaloedd gwledig yn aml gryn dipyn yn ddrutach nag yw mewn ardaloedd trefol.. Mae mynediad i unrhyw wasanaeth megis ysbytai, gwasanaethau lles, cyngor, hamdden ac archfarchnadoedd yn dibynnu ar fynediad i gar. Yng Ngwynedd mae'r ysbyty cyffredinol agosaf ar gyfer rhai teuluoedd 40 milltir i fwrdd.
 - c. Mae bron i chwarter yr aelwydydd yng Nghymru yn diodef tlodi tanwydd, sy'n golygu bod yn rhaid i 320,000 o aelwydydd wario 10 y

cant neu fwy o'u hincwm ar ynni i wresogi eu cartrefi'n ddigonol. Gallai hyn olygu bod pobl yn gorfod dewis rhwng gwresogi eu cartrefi a bwyta'n iawn. Unwaith eto mae gan deuluoedd sy'n byw yng nghefn gwlad rwystrau ychwanegol - prin yw'r tai sy'n gallu manteisio ar brif gyflenwad nwy, er enghraifft. Mae effaith tlodi tanwydd yn mynd ymhellach na chanlyniadau ariannol. Gall byw mewn tlodi tanwydd effeithio ar iechyd pobl, gan gynyddu 'r risg i ddioddef o salwch megis annwyd, y ffliw a heintiau anadlol gan gynnwys bronchitis. Ceir canlyniadau anuniongyrchol hefyd: straen ymhlith plant ac oedolion ac iselder a phryder tymor hir, eithrio cymdeithasol, ac effaith ar iechyd a chyfleoedd bywyd teuluoedd ac unigolion, ac ar gyrhaeddiad addysgol.

- 4.5 Mae'r berthynas rhwng tlodi ac anabledd yn aml yn cael ei disgrifio fel cylch diefflig. Mae plant anabl ymhlith y rhai sydd fwyaf tebygol o ddioddef tlodi - ac mae plant tlawd yn fwy tebygol i ddod yn anabl na phlant o deuluoedd sy'n well eu byd. Mewn papur a gyhoeddwyd yn y cylchgrawn 'BMC Paediatrics', dywed ymchwilyr fod aelwydydd gyda phlentyn anabl yn £50 yn waeth eu byd na theuluoedd heb blentyn anabl. Fel y soniwyd eisoes mae tystiolaeth gadarn yn dangos bod tlodi parhaus yn ystod plentyndod yn cael effaith arwyddocaol ar gyfleoedd plentyndod, gall hefyd effeithio ar brofiadau plentyndod. Mae Arolwg Iechyd Cymreig 2009 yn dangos cysylltiad agos rhwng iechyd meddwl gwael a grŵp - socio-economaidd. Ceir tystiolaeth bod aelwydydd lle mae un o'r trigolion yn anabl - boed yn blentyn neu yn un o'r rhiant - yn fwy tebygol o ddioddef tlodi cyfleoedd hefyd.

Ers i'r Awdurdod gynhyrchu ei Gynllun Cydraddoldeb Anabledd cyntaf yn 2006 mae'r Awdurdod wedi ymdrechu i fabwysiadu'r 'Model Cymdeithasol' o anabledd. Mae'r Model Cymdeithasol yn sefydlu bod pawb yn gyfartal ac yn dangos mai cymdeithas sy'n codi rwystrau sy'n rhwystro pobl anabl rhag cymryd rhan ac yn cyfyngu ar eu cyfleoedd. Tra'n aml ni ellir newid amhariad, gyda'r polisiau cywir gellir cael gwared ar rwystrau.

5. Y weledigaeth ar gyfer Parc Cenedlaethol Eryri.

5.1 Prif broblem teuluoedd tlawd yw diffyg arian, ac i'r rhan fwyaf o bobl cael gwaith yw'r unig ffordd i ddod allan o dlodi.

Mae'r Awdurdod yn derbyn mai fel corff cymharol fychan yn cyflogi tua 150 o weithwyr cyfwerth llawn amser, cyfyng yw ei allu i gynnig cyflogaeth uniongyrchol. Fodd bynnag mae gan yr Awdurdod, drwy weithio mewn partneriaeth, rôl bwysig yn hybu economi gynaliadwy yn Eryri. Mae ganddo rôl hefyd i helpu lliniaru effaith tlodi ar deuluoedd a chynnig cyfleoedd i deuluoedd difreintiedig i fwynhau rhinweddau arbennig Eryri. Caiff y bwriad yma ei ymgorffori yn y weledigaeth ar gyfer y Parc sy'n cael ei gynnwys yn y Cynllun Rheolaeth:

5.2 Erbyn 2035, bydd Eryri'n parhau i fod yn dirwedd esblygol a gwarchodedig, yn cael ei ddiogelu a'i wella i ddarparu amgylchedd naturiol gyfoethog ac amrywiol; yn rhoi buddiannau cymdeithasol, economaidd a lles yn genedlaethol a rhyngwladol.

Cyflawnir pwrpasau'r Parc Cenedlaethol trwy economi amrywiol a ffyniannus sydd wedi addasu i heriau newid mewn hinsawdd ac wedi ei seilio ar adnoddau naturiol – rhinweddau'r dirwedd, cyfleoedd i ddysgu a mwynhau, treftadaeth ddiwylliannol a naturiol. Gyda chymunedau dwyieithog bywiog a chynhwysol, bydd gweithio mewn partneriaeth wedi dangos y gellir cyflawni mwy trwy weithio gyda'n gilydd.

Bydd cymunedau wedi mabwysiadu atebion arloesol mewn byd sy'n newid – bydd economi carbon isel wedi cryfhau cysylltiad y preswylwyr gyda'r amgylchedd, gan roi gwell safon byw a sicrhau enw da Eryri fel Parc Cenedlaethol sy'n enwog yn rhyngwladol a lle i enaid gael llonydd.

Wrth geisio gwireddu'r weledigaeth fe fydd y Parc a'i bartneriaid yn hwyluso;

- Economi amrywiol a chadarn yn seiliedig ar nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol. Bydd y nwyddau a gwasanaethau hyn yn cynnwys amaeth a chynnyrch amaethyddol, twristiaeth a hamddena cynaliadwy, atafaelu carbon, cynhyrchu pŵer adnewyddol ar raddfa briodol, cadwraeth adeiladau, a chyfleoedd newydd i ddysgu a deall.

- Darpariaeth cyflogaeth briodol, bydd cymunedau yn cadw eu bwrlwm wrth adennill demograffeg fwy sefydlog. Bydd hyn yn cynnwys cyflenwad o dai cynaliadwy i gwrdd ag anghenion lleol am brisiau fforddiadwy.
- Cyfleoedd hamddena i breswylwyr ac ymwelwyr. Ni fydd y gweithgareddau hyn yn niweidio rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol a bydd rheolaeth effeithiol yn rhoi cyfleoedd i bawb sy'n dymuno gwella eu hiechyd a lles.

6. Ymrwymiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i fynd i'r afael a thlodi plant.

6.1 Cyflogaeth

- a. O fewn y Cynllun Datblygu Lleol mae Polisi Strategol H: Economi Wledig Gynaliadwy yn dangos ymrwymiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i gefnogi economi Eryri -
Er mwyn creu a chadw economi wledig gynaliadwy bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn:
 - i. Cefnogi datblygiad cyflogaeth newydd yn y canolfannau gwasanaeth lleol, aneddiadau gwasanaeth ac aneddiadau eilaidd. Rhaid I faint a graddfa'r datblygiad fod yn gymesur â maint a swyddogaeth yr anheddiad.
 - ii. Hyrwyddo aildefnyddio tir neu adeiladau sy'n cael eu tanddefnyddio neu ddim yn cael eu defnyddio ar gyfer dibenion economaidd neu gyflogaeth.
 - iii. Cefnogi'r sector amaethyddol a chyfleoedd am arallgyfeirio gwledig nad yw'n cael effaith negyddol ar 'Rhinweddau Arbennig' y Parc Cenedlaethol.
 - iv. Cefnogi twristiaeth a gweithgaredd hamdden sy'n sicrhau'r buddiannau economaidd lleol uchaf, yn lleihau i'r eithaf yr effaith amgylcheddol, a diogelu 'Rhinweddau Arbennig' y Parc Cenedlaethol.
 - v. Cefnogi cynigion a fyddai'n darparu isadeiledd cefnogol addas i gynnal a hyrwyddo'r economi leol.
 - vi. Cefnogi unedau byw-gweithio a gweithio o'r cartref.

- b. Fel cyflogwr mae'r Awdurdod yn ymroddedig i wella cydbwysedd gwaith a chartref, gweithredir system fflecsi a chyda caniatâd y rheolwr llinell, mae datblygiadau technolegol yn ei gwneud yn bosibl i staff gael gweithio o gartref.
- c. Mae cyfleoedd i blant ysgol a myfyrwyr i gael profiad gwaith gyda gwahanol wasanaethau o fewn yr Awdurdod.
- ch. Mae'r Awdurdod yn cyd-weithio gydag amryw o wahanol gynlluniau sy'n hwyluso gwella sgiliau a mynediad i waith. Ar hyn o bryd gobeithir dod yn rhan o'r cynllun Taith i Waith - cynllun sy'n hwyluso dychwelyd i waith i bobl gyda phroblemau iechyd meddwl.
- d. Drwy weithio mewn partneriaeth, cynigir bod y gwasanaeth wardeiniaid a mynediad yn edrych ar ddulliau i gynnig profiad o weithio/gwirfoddoli yn yr awyr agored i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na gwaith; disgyblion sydd wedi eu heithrio.
- dd. Mae'r gwasanaeth cadwraeth ac amaethyddiaeth eisoes yn trefnu peth hyfforddiant mewn sgiliau cefn gwlad gan roi blaenoriaeth i bobl ifanc. Ar y gweill mae cais ar y cyd a'r gwasanaeth treftadaeth ddiwylliannol i sicrhau Grant Loteri i wella tirwedd a threftadaeth yn Eryri, fydd yn galluogi cynnig mwy o hyfforddiant mewn sgiliau adeiladu a sgiliau cefn gwlad.

6.2 Mynediad i gefn gwlad er budd iechyd a Lles

- a. Mae sawl astudiaeth yn dangos y budd gaiff mynediad i gefn gwlad ar iechyd a lles pobl (de Vries et al., 2003; Mitchell and Popham, 2007). Awgrymir y gallai hyn fod yn arbennig o bwysig i bobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig. (Ward Thompson et al., 2006); a bod angen teilwra'r gweithgaredd ar gyfer y gwahanol grwpiau (e.e. Humphreys and Ruseski, 2007). (Children in the Outdoors A Literature Review - Sustainable Development Research Centre)
- b. Yn ôl canlyniadau holiadur Gwynedd Egniol gan Uned Ymchwil a Gwybodaeth Gyngor Gwynedd 2011 - Holwyd yr holl ymatebwyr beth fyddai'n eu hannog a/neu helpu i ddod yn fwy actif yn gorfforol. Dyma'r ymatebion mwyaf cyffredin - rhagor o wybodaeth / gwell gwybodaeth am yr hyn sydd ar gael (32.7%) a gweithgareddau yn nes at ble mae'r ymatebwyr yn byw/ yn eu cymunedau (30.6%) .

- c. Mae Cynllun Rheolaeth y Parc yn nodi bod sicrhau bod cyfleoedd hamdden a dysgu ar gael i bawb yn gonglfaen y Cynllun. Ni ddylai neb gael ei amddifadu o'r cyfle i fwynhau neu ddysgu am nodweddion arbennig Eryri oherwydd rhwystrau corfforol neu gymdeithasol. Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, rhaid i'r holl bartneriaid perthnasol weithio i wneud Eryri'n fwy hygyrch i bawb a rhoi cefnogaeth ac anogaeth hanfodol lle bo angen, ochr yn ochr â'r isadeiledd angenrheidiol.
- d. Mae'r Awdurdod eisoes yn trefnu teithiau cerdded misol ar gyfer pobl gyda nam ar y golwg a phobl gyda phroblemau iechyd meddwl. Cynigir bod hyn yn cael ei ehangu i gynnwys grwpiau difreintiedig eraill gan gynnwys teuluoedd plant a phobl ifanc gyda nam ar y golwg.
- e. Mae Bwrlwm Eryri yn darparu prosiectau diwylliannol a threftadaeth ar hyd a lled y Parc. Mae swyddog Bwrlwm Eryri yn arwain ar y prosiectau hyn gan gydweithio'n agos gyda gwasanaethau eraill o fewn y Parc a nifer o bartneriaid perthnasol eraill yn y gymuned ac yn y sector gymunedol. Mae menter Bwrlwm Eryri wedi llwyddo i greu prosiectau creadigol ar gyfer grwpiau ac unigolion o bob cefndir, gyda nifer o blant a phobl ifanc yn profi hynny am y tro cyntaf erioed.
- f. Mae'r adran wardeiniaid a mynediad hefyd yn gweithio mewn partneriaeth i drefnu teithiau cerdded gan gynnwys teithiau i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn.
- g. Mae gwefan yr Awdurdod yn cynnwys gwybodaeth am y cyfleoedd sydd i'w mwynhau yn Eryri. Mae yma hefyd adran 'Eryri i Bawb' sy'n cynnwys gwybodaeth i bobl anabl a theuluoedd gyda phlant ifanc. Yn y dyfodol fe fydd mwy o wybodaeth ar lwybrau sy'n hygyrch i goetsis babi.
- h. Ers dechrau'r flwyddyn hon (2012) daeth yr Awdurdod yn rhan o gynllun Mosaic. (Mae Mosaic yn gynllun gan Campaign for National Parks sydd a'r nod i adeiladu cysylltiadau cynaliadwy rhwng grwpiau pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig â Pharciau Cenedlaethol.) Trwy gydweithio gyda swyddog y cynllun gellir sicrhau bod y cyfleoedd i fwynhau rhinweddau arbennig y Parc yn cael eu cynnig i deuluoedd difreintiedig o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

6.3 Tai fforddiadwy a thlodi tanwydd

Nid oes gan yr Awdurdod gyfrifoldeb statudol am dai. Fodd bynnag fel Awdurdod cynllunio mae ganddo'r grym i sicrhau bod mwy o dai fforddiadwy yn cael eu hadeiladu er mwyn diwallu anghenion lleol. Amcangyfrifir y bydd 415 o dai fforddiadwy yn cael eu hadeiladu yn y 15 mlynedd nesaf - yn ystod oes y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r Awdurdod hefyd yn cyd-ariannu dau Swyddog Tai Gwledig - un yn ardal Conwy a'r llall yng Ngwynedd - rôl y swyddogion yw i:

- weithredu fel broceriaid annibynnol, diduedd ar ran y cymunedau lleol ar faterion tai
- helpu cymunedau i gynnal arolygon o anghenion tai
- cynorthwyo cymunedau i ddod o hyd i atebion diwallu'r angen am dai lleol

Cyfyng yw rôl yr Awdurdod i liniaru tlodi tanwydd. Yn fewnol i'r dyfodol, bydd yr Awdurdod yn datblygu cynllun trydan hydro ym Mhlas Tan y Bwlch er mwyn darparu pŵer i'r ganolfan astudiaeth. Yn ogystal bydd yn datblygu cynllun hydro ym Mwthyn Ogwen i roi pŵer i Ganolfan y Warden a'r cyfleusterau ymwelwyr. Bydd y ddau brosiect yn cael eu defnyddio fel cynlluniau arddangos enghreifftiol, fydd yn cyfrannu at ymrwymiad yr Awdurdod i hysbysu'r cyhoedd yn nhermau cynhyrchu pŵer amgen, fyddai o bosib yn diwallu anghenion materion tlodi tanwydd. Yn allanol, 'rydym am ganolbwyntio ein cynllun grant CAE* (grant Datblygu Cynaliadwy) ymhellach ar leihau carbon cymunedau, yn ogystal â chyhoeddi ein gweithrediadau fel rhai enghreifftiol. Bydd hyn eto yn cynorthwyo'n anuniongyrchol tuag at leihau tlodi tanwydd.

*** Acronym Cymraeg yw CAE, sy'n golygu Cronfa Arbrofol Eryri. Mae'n gronfa o £200.000 y flwyddyn sy'n cael ei gweinyddu gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar ran Llywodraeth Cymru. Y nod cyffredinol yw: drwy gyfrwng partneriaeth, datblygu a phrofi dulliau o sicrhau ffordd o fyw sy'n fwy cynaliadwy mewn ardal wledig nodedig o hard ac amrywiol, gan ddiogelu a gwella nodweddion lleol y diwylliant, bywyd gwylt, y dirwedd, y gymuned a'r defnydd a wneir o'r tir.**

6.4 Addysg

- a. Ers canrifoedd mae Eryri wedi cael ei ddefnyddio fel dosbarth awyr agored. Mae'r traddodiad hwn yn parhau i ddatblygu. Mae gwasanaeth addysg yr Awdurdod yn cael ei arwain gan y ddarpariaeth a drefnir trwy Plas Tan y Bwlch. Yma cynigir profiadau i ysgolion cynradd ac uwchradd

a cholegau, gan swyddogion profiadol a chymwys, yn gysylltiedig ag anghenion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae gwaith y Plas yn targedu ysgolion nid yn unig o fewn ffiniau'r Parc ond hefyd y tu hwnt i'r ardal. Mae hyn yn cynnwys ymweliadau i'r ysgolion (cynradd yn enwedig) i gyflwyno egwyddorion a phwysigrwydd y Parc i ddisgyblion nad ydynt wedi cael unrhyw gyswllt â'r Parc. Mae rhai o'r ysgolion hyn yn wedyn yn ymweld â'r Plas am ymweliad preswyl.

- b. Ers rhai blynyddoedd bellach mae disgyblion o Tŷ Meirion, Ysgol y Gader (Uned ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion addysg benodol) wedi dod i aros dros nos ym Mhlas Tan y Bwlch. Caiff y cyfle hwn ei werthfawrogi gan deuluoedd y plant, gan yn aml dyma'r cyfle cyntaf i'r bobl ifanc aros oddi cartref. Yn dilyn trafodaeth gyda swyddogion Cyngor Gwynedd, bydd yr Awdurdod yn edrych i gyd-weithio ar eu cynllun blaengar - 'Teuluoedd yn Gyntaf'. Y bwriad fydd i gynnig profiad i deuluoedd o gefndiroedd difreintiedig fydd wedi cael eu hadnabod d y cynllun i gael cynnig cyfleoedd i fwynhau rhinweddau arbennig Eryri.

6.5 Prif-ffrydio Cynhwysedd Cymdeithasol yng ngwaith yr Awdurdod

Un o'r prif heriau fydd i sicrhau bod ystyriaethau cynhwysedd cymdeithasol a thlodi plant yn cael eu prif-ffrydio i waith yr Awdurdod. Bydd y Tri Pharc Cymreig yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod cyfleoedd i Aelodau a swyddogion i dderbyn hyfforddiant, ac i rannu profiadau ar gynhwysedd cymdeithasol a thlodi plant. Fe fydd yr Awdurdod yn sicrhau bod mecanwaith mewn lle fydd yn sicrhau bod cynhwysedd cymdeithasol wrth galon pob maes gwaith allweddol.

Caiff y Strategaeth ei fonitro'n flynyddol a 'i adolygu pob dwy flynedd.

6.1 Cyflogaeth

Gweithred / prosiect	Amserlen	Swyddog Cyfrifol
Fel rhan o gynllun 'Gwella Tirwedd Eryri' (Cais grant Loteri Treftadaeth) cynnig hyfforddiant mewn sgiliau cefn gwlad - ee gwaith adeiladu/ codi waliau cerrig ac ati	Mawrth 2014	Pennaeth Cadwraeth ac Amaethyddiaeth Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol
Cynnig profiad gwaith i ddisgyblion lleol ac i fyfyrwyr.	Parhaus	Pennaeth Gweinyddu Penaethiaid Adran
Mewn partneriaeth (e.e. Cadw Cymru'n Daclus) cynnig profiad gwaith/ cyfleoedd gwirfoddoli i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant; disgyblion sydd wedi eu heithrio o'r ysgol.	Mawrth 2014	Pennaeth Wardeiniaid a Mynediad Penaethiaid Adran
Datblygu ymhellach bolisïau gwaith sy'n gyfeillgar i fywyd teuluol.	Parhaus	Pennaeth Personél
Gweithio gyda chynllun 'Taith i Waith' cynnig lleoliad gwaith i bobl gyda salwch meddwl.	Mawrth 2014	Pennaeth Personél

6.2 Mynediad i gefn gwlad er budd lechyd a Lles

Gweithred / prosiect	Amserlen	Swyddog Cyfrifol
Gwella mynediad i bobl anabl a theuluoedd ifanc at gyfleoedd hamdden a mwynhad drwy Eryri gyfan, trwy gynyddu hyd lwybrau di-rwystr a'r isadeiledd cysylltiedig.	Parhaus	Cyfarwyddwr Defnydd Tir
Trefnu teithiau cerdded misol i bobl gyda nam ar y golwg,	Parhaus	Swyddog Cymunedol
Mewn partneriaeth â Hafal trefnu teithiau cerdded misol i bobl gyda phroblemau iechyd meddwl	Parhaus	Swyddog Cymunedol
Trefnu teithiau cerdded i bobl ifanc gyda nam ar eu golwg gan gynnwys eu teuluoedd	Mawrth 2014	Swyddog Cymunedol
Drwy'r cynllun MOSAIC - annog mynediad i bobl o gefndiroedd ethnig at gyfleoedd hamdden, mwynhad, a gwell dealltwriaeth o rinweddau'r Parc Cenedlaethol	Mawrth 2014	Cyfarwyddwr Cynllunio a Threftadaeth
Gweithio mewn partneriaeth trefnu teithiau i bawb, gan gynnwys defnyddwyr cadeiriau olwyn	Parhaus	Pennaeth Wardeiniaid a Mynediad Swyddog Cymunedol
Gweithio mewn partneriaeth â Chynghorau Gwynedd a Chonwy i gynnig cyfleoedd i deuluoedd difreintiedig i fwynhau rhinweddau'r Parc Cenedlaethol	Mawrth 2014	Pennaeth Addysg a Chyfathrebu Pennaeth Wardeiniaid a Mynediad Swyddog Cymunedol
Ehangu'r adran Eryri i Bawb ar y wefan i gynnwys mwy o wybodaeth at lwybrau sy'n hygyrch i deuluoedd gyda 'coetsis babi'	Mawrth 2014	Pennaeth Addysg a Chyfathrebu
Hyrwyddo/ llywio cynllun grant CAE i gefnogi cynlluniau cynhwysol lleol.	Mawrth 2014	Swyddog Cynladwyedd a'r Gymuned

6.3 Tai a Thlodi Tanwydd

Gweithred / prosiect	Amserlen	Swyddog Cyfrifol
Cyfrannu at gyflogi Swyddogion Hwyluso Tai Gwledig yng Ngwynedd a Chonwy	Mawrth 2014	Cyfarwyddwr Cynllunio a Threftadaeth Ddiwylliannol
Darparu Tai fforddiadwy – dros oes y Cynllun Datblygu Lleol (15 mlynedd) amcangyfrifir y bydd 415 yn cael eu hadeiladu	Mawrth 2014	Cyfarwyddwr Cynllunio a Threftadaeth Ddiwylliannol
Penodi Swyddog Eco System a Newid Hinsawdd i ymestyn cylch gwaith yr Awdurdod ar leihau defnydd Carbon a'r effaith ar dlodi tanwydd.	Mawrth 2014	Cyfarwyddwr Rheoli Tir
Hyrwyddo defnydd o ficro gynhyrchu pŵer ar raddfa briodol a chynlluniau pŵer adnewyddol cymunedol.	Mawrth 2014	Cyfarwyddwr Cynllunio a Threftadaeth Ddiwylliannol
Hyrwyddo ymchwil sydd wedi ei anelu at wella effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau traddodiadol wrth gadw eu cymeriad arbennig.	Mawrth 2014	Cyfarwyddwr Cynllunio a Threftadaeth Ddiwylliannol
Gwella effeithlonrwydd ynni drwy ddyluniad da a chynaliadwy. Yn rhannol gellir cyflawni hyn trwy gyfrwng yr Arweiniad ar gyfer Dyluniad Cynaliadwy.	Mawrth 2014	Cyfarwyddwr Cynllunio a Threftadaeth Ddiwylliannol
Hyrwyddo cynllun grant CAE* i brosiectau cymunedol i leihau defnydd carbon	Mawrth 2014	Swyddog Cynladwyedd a'r Gymuned

6.4 Addysg

Gweithred / prosiect	Amserlen	Swyddog Cyfrifol
Sicrhau profiad gwerthfawr yn yr awyr agored neu yn y dosbarth drwy ddarpariaeth gynradd neu uwchradd. Gan roi cyfle i blant a phobl ifanc o unrhyw gefndir fwynhau profiadau amgylcheddol, hamdden neu antur.	Mawrth 2014	Pennaeth Addysg a Chyfathrebu
Datblygu rhaglen o brosiectau creadigol a diwylliannol gyda grwpiau cymunedol, arbenigol a lleiafrifol. Gan roi cyfle i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgaredd creadigol ac ieithyddol a dod i ddeall am rinweddau diwylliannol y Parc yn well	Mawrth 2014	Pennaeth Addysg a Chyfathrebu

6.5 Prif-ffrydio Cynhwysedd Cymdeithasol yng Ngwaith yr Awdurdod.

Gweithred / prosiect	Amserlen	Swyddog Cyfrifol
Gweithio gyda'r Parciau Cenedlaethol Cymreig eraill i sicrhau bod cyfleoedd hyfforddiant i Aelodau a swyddogion ar gynhwysedd cymdeithasol a thlodi plant.	Mawrth 2014	Cyfarwyddwr Cynllunio a Threftadaeth Ddiwylliannol
Cynnwys y Strategaeth Tlodi Plant yng Nghynllun Gwaith Corfforaethol yr Awdurdod	Mawrth 2014	Cyfarwyddwr Cynllunio a Threftadaeth Ddiwylliannol
Trefnu Fforwm Cydraddoldeb Anabledd ddwywaith y flwyddyn	Parhaus	Swyddog Cymunedol
Adrodd i'r Tîm Rheoli yn chwarterol ar ddatblygiadau yn yr agenda cynhwysedd cymdeithasol	Mawrth 2014	Cyfarwyddwr Cynllunio a Threftadaeth Ddiwylliannol
Monitro'r Strategaeth tldi Plant yn flynyddol, ac adolygu pob dwy flynedd	Mawrth 2014	Cyfarwyddwr Cynllunio a Threftadaeth Ddiwylliannol